# Asesu a defnyddio gwybodaeth ariannol i gysoni cyfrifon buddsoddi rhanddeiliaid

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag asesu a defnyddio gwybodaeth ariannol a datrys cwestiynau sy'n deillio o wybodaeth a gawsoch er mwyn cysoni cyfrifon buddsoddi rhanddeiliaid. Mae cysoni cyfrifon yn gofyn eich bod yn gallu paru gwybodaeth â chyfrifon ariannol a chanfod unrhyw anghysondebau, a chymryd y camau priodol i'w datrys. Dylech hefyd fedru cyfeirio ymholiadau heb eu datrys at y person priodol o blith eich cyflogwyr. Gallai hyn olygu nad yw'r taliad wedi dod i law eto, bod y symiau anghywir wedi cael eu prosesu, neu bod manylion y cofnod heb eu prosesu eto. Bydd angen i chi roi sylw i fanylion sy'n hanfodol i'ch gwaith.

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. Delio gyda gwybodaeth ariannol yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
2. Derbyn gwybodaeth ariannol a pharu'r manylion â chyfrifon rhanddeiliaid, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
3. Nodi unrhyw elfennau nad ydynt yn cyfateb, ymchwilio iddynt a'u datrys, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
4. Ymateb i ohebiaeth a darparu gwybodaeth reolaidd i'r bobl briodol ynghylch cynnydd ymholiadau ynghylch cyfrifon, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
5. Nodi ymholiadau sydd heb eu datrys a'u trosglwyddo i'r bobl briodol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
6. Casglu gwybodaeth ynghylch ymholiadau a chymryd camau priodol yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
7. Prosesu ymholiadau pan gânt eu datrys a diweddaru'r wybodaeth am gyfrifon yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
8. Cadarnhau bod cyfrifon rhanddeiliaid wedi'u cysoni a'u diweddaru a'u storio yn y fformat cytunedig
9. Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, gan gynnwys safonau moesegol, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer proffesiynol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Y fframwaith rheoliadol mewn perthynas â chysoni cyfrifon
2. Ffynonellau gwybodaeth a chyngor o fewn eich sefydliad
3. Systemau cyfrifiadurol eich sefydliad
4. Terfynau eich awdurdod eich hun a'r camau sy'n ofynnol os bydd rhaid gweithredu mewn modd sydd y tu hwnt i'ch awdurdod
5. Sut mae cael mynediad i gofnodion busnes sydd eisoes yn bodoli
6. Gweithdrefnau eich sefydliad a'r terfynau amser ar gyfer taliadau
7. Dulliau gwahanol o dderbyn gwybodaeth ariannol
8. Gweithdrefnau esgaladu wrth ddelio gyda thaliadau hwyr
9. Gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso codau, cyfreithiau a gofynion rheoliadol, gan gynnwys safonau moesegol

## Ymddygiadau

1. Rydych yn gweithredu oddi mewn i derfynau eich cyfrifoldeb
2. Rydych yn dangos parch at eraill yn eich ymwneud â nhw

FSPIO10

Asesu a defnyddio gwybodaeth ariannol i gysoni cyfrifon buddsoddi rhanddeiliaid

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPIO10 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Gweithrediadau Buddsoddi |
| **Geiriau Allweddol** | Gweithrediadau Buddsoddi; gweinyddiaeth buddsoddiadau; y farchnad fuddsoddi; data buddsoddiadau; data'r farchnad; buddsoddiadau; perfformiad buddsoddiadau; perfformiad y farchnad; asedau; cwmni buddsoddi; rheoli cronfeydd; gwasanaethau ariannol; daliadau ariannol; cydymffurfio; buddsoddwyr |